Rhifyn 10

Medi 2009

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

SUT I GYSYLLTU Â NI

Diogelu'r Cyhoedd

CNOI CIL

Newyddlen Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yr Adran Dai a Diogelu'r Cyhoedd

Rhybuddion Bwyd - Beth ydyn nhw?

Rhybuddion Bwyd yw dull yr FSA o roi gwybod i awdurdodau lleol a defnyddwyr am broblemau gyda bwyd a, gyda rhai o'r rhain, rhoi manylion camau pendant sydd i'w dilyn.

Maen nhw'n cael eu rhoi ' Er Gwybodaeth' os bydd yr ateb i broblem yn cael ei weithredu neu 'Ar Gyfer Gweithredu' os bydd angen ymyrraeth gan asiantaethau gorfodi. Maen nhw'n cael eu rhoi yn aml yr un pryd â thynnu neu alw cynnyrch yn ôl gan y cynhyrchwyr, yr adwerthwyr neu'r dosbarthwyr.

Pan fydd Rhybudd Bwyd wedi ei roi, gwaith yr awdurdod lleol yw sicrhau nad oes yr un o'r cynhyrchion sydd wedi eu rhestru yn y Rhybudd ar werth yn ardal Wrecsam.

Sut ydym ni'n gwneud hyn?

Bydd hyn yn dibynnu ar y math o Rybudd Bwyd. Os yw'n Rhybudd Bwyd 'Er Gwybodaeth' does dim rhaid gweithredu, ond os yw'n Rhybudd 'Ar Gyfer Gweithredu', mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn y camau priodol i sicrhau bod y cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt wedi eu tynnu oddi ar y farchnad yn llwyddiannus.

Mae gennym nifer o ffyrdd o wneud hyn. Byddem yn gallu;

- Ymweld â'ch safle i weld nad oes gennych unrhyw gynhyrchion yr effeithiwyd arnynt ac os oes cynhyrchion yno bydd y swyddog yn eu cymryd a chael gwared arnyn nhw;
- Ysgrifennu i roi gwybod i chi am y Rhybudd a gofyn i chi fwrw golwg ar eich stoc i weld a oes cynnyrch yr effeithiwyd arno. Os oes cynhyrchion yno bydd swyddogion yn trefnu i'w casglu i gael gwared arnyn nhw;
- Eich ffonio i roi gwybod am y rhybudd a gofyn i chi fwrw golwg ar eich stoc i weld a oes cynnyrch yr effeithiwyd arno. Eto, byddwn yn trefnu i gasglu a chael gwared arno os gwelwn fod cynnyrch yno.

Mae rhestr gyflawn o Rybuddion Bwyd yn www.foodstandards.gov.uk

Mae modd hefyd anfon rhybuddion bwyd yn syth i'ch ffôn symudol. I roi eich enw i lawr am y gwasanaeth am ddim yma, y cwbl sydd rhaid i chi ei wneud yw anfon neges destun 'START FOOD' to i'r rhif 62372. I dynnu eich enw yn ôl, anfonwch neges 'STOP FOOD' i'r un rhif.

I gael mwy o wybodaeth am Rybuddion Bwyd, mae croeso i chi alw'r Tîm Diogelwch Bwyd.

Yn y rhifyn hwn:

Cyfarwyddyd newydd i Fusnesau Bwyd	2
Danfoniadau -Ydw i'n cael be' dwi wedi talu amdano?	2
Enillwyr Gwobrau Dewisiadau Iach	2
Hyrwyddo cynnyrch wedi ei wneud yn lleol	3
Wythnos Diogelwch Bwyd 2009	3
Enillwyr Gwobr Hylendid Bwyd	4
Dyddiadau Hyfforddi Hylendid Bwyd	4

Cyfarwyddyd Newydd i Fusnesau Bwyd ynglŷn â'r Ddeddf Diogelwch Bwyd

Mae'r Asiantaeth Diogelwch Bwyd wedi cyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfer busnesau bwyd ynghylch deddf diogelwch bwyd 1990. Mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol i bob math o fusnes bwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r cyfarwyddyd, sydd wedi dod yn lle'r arweiniad blaenorol ' Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Chi', i'w weld ar y ddolen isod. Mae wedi ei ddiweddaru i gynnwys newidiadau yn y Ddeddf ac yn y Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Newid) Rheoliadau 2004.

Beth yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ?

Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn cynnig y fframwaith i bob deddfwriaeth ar gyfer bwyd ym Mhrydain —mae deddfwriaeth debyg yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Y prif gyfrifoldebau ar gyfer pob busnes bwyd o dan y Ddeddf yw:

- Sicrhau nad ydych yn cynnwys unrhyw beth mewn bwyd, tynnu unrhyw beth allan o fwyd neu drin bwyd unrhyw fodd a fyddai'n niweidio iechyd y bobl sy'n ei fwyta
- Sicrhau bod y bwyd rydych yn ei weini neu'n ei werthu o'r math, sylwedd neu ansawdd y byddai cwsmeriaid yn ei ddisgwyl
- Sicrhau bod y bwyd wedi ei labelu, ei hysbysebu a'i gyflwyno mewn modd nad yw'n anwir neu'n gamarweiniol

Ewch at: www.food.gov.uk a chwilio am Y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990: Canllaw i Fusnesau Bwyd.

Danfoniadau – Ydw i'n cael be' dwi wedi talu amdano?

Mae arolwg diweddar gan y Gwasanaeth Safonau Masnachu wedi dangos bod pryderon ynghylch cywirdeb pwysau datganedig ar gyfer danfoniadau o gynnyrch fel ffrwythau, llysiau a chig, yn enwedig i sefydliadau arlwyo mwy o faint fel gwestai ac ysgolion.

Yn aml, nid oes modd i sefydliadau fel hyn gael gwybod pwysau'r cynhyrchion sy'n cael eu danfon ac felly gallai danfoniadau gyda phwysau annigonol ddigwydd. Os oes pryderon gennych chi neu eisiau unrhyw gyngor ynglŷn â'r mater hwn, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Masnach yr adran Safonau Masnach ar **01978 292045.**

Enillwyr Gwobrau Dewisiadau Iach

Llongyfarchiadau i'r safleoedd canlynol sydd wedi ennill Gwobr Dewisiadau Iach

Perellis, Allt y Dref, Wrecsam—Efydd

Waterworld Café, Bodhyfryd, Wrecsam—Efydd

Spuds Galore, Merffordd, Wrecsam—Arian

Ystafell fwyta'r gweithwyr Baxterstorey yn Kelloggs, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, Wrecsam

Hyrwyddo Cynnyrch Wedi ei Wneud yn Lleol

Mae geiriau fel "lleol", "Cymreig", "ffres", "traddodiadol", "cartref" yn aml mewn disgrifiadau ar fwydlenni i gyfleu syniad o ansawdd ac annog cwsmeriaid i'w dewis.

Mae'r cynhyrchion hyn yn ddrud yn aml.

Mewn arolwg cyd-drefnus ar draws Gogledd Cymru yn niwedd 2008, ymwelodd Swyddogion Safonau Masnachu ag amrywiaeth o sefydliadau arlwyo i graffu ar y disgrifiadau ar fwydlenni.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg bod mwy nag 20% o'r holl sefydliadau arlwyo yn gamarweiniol yn y disgrifiadau ar fwydlenni. Amlygodd hefyd bod hanner y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy sy'n perthyn i gadwyni yn gamarweiniol yn eu disgrifiadau. Mewn gwestai a thai bwyta y gwelwyd y rhan fwyaf o'r diffyg cydymffurfio.

Nod yr arolwg hwn oedd helpu i sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain a chefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol yng Nghymru.

Wrth gael bwyd ar gyfer eich busnes mae'n werth ystyried o le y daeth yn gyntaf a'r modd y mae wedi ei gynhyrchu oherwydd oni bai fod gwybodaeth fel hyn gennych chi, fe fyddech chi heb yn wybod i chi yn gallu camarwain cwsmeriaid wrth lunio eich bwydlenni a hysbysebu bwyd a gallech chi dorri deddfau Safonau Bwyd.

Mae dod o hyd i gynnyrch wedi ei wneud yn lleol yn cynnig manteision amlwg i'ch busnes, defnyddwyr a'r amgylchedd. Yn ddiweddar, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi adolygu eu cyfarwyddyd ar gyfer defnyddio geiriau marchnata fel "ffres", "traddodiadol" a "chartref" sydd ar gael yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/markcritguidance.pdf. Am fwy o wybodaeth a chyngor mae croeso i chi gysylltu â Thîm Masnach yr adran Safonau Masnachu ar 01978 292045.

Wythnos Diogelwch Bwyd 2009

Mae'r Wythnos Diogelwch Bwyd yn ddigwyddiad blynyddol i hyrwyddo pwysigrwydd hylendid da gyda bwyd yn y cartref. Eleni, roedd hi rhwng y 15fed a'r 21ain Mehefin, ac roedd y sylw ar bobl tros 60 oed a'r angen am gadw a thrin bwyd yn gywir. Y rheswm am roi sylw arbennig i'r garfan arbennig hon yw bod llawer iawn mwy o achosion o listeria yn digwydd yn ddiweddar ymysg pobl o'r oed hwn - mwy na dwywaith nifer yr achosion ers 2001. Mae listeria yn fath o facteria gwenwyn bwyd sy'n gallu byw a thyfu mewn bwyd, yn enwedig bwyd wedi ei oeri fel pate, cigoedd wedi eu coginio, cawsiau meddal a physgod coch.

Mae swyddogion y Tîm Diogelwch Bwyd wedi bod yn ymweld â Chlybiau Cinio ar hyd a lled y Fwrdeistref i gynnig taflenni cyngor a thermomedrau oergell i'r bobl yn y garfan agored i niwed hon, gan bwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau nad yw bwyd yn cael ei fwyta pan yw heibio i'w ddyddiad 'defnyddio erbyn', y dylai tymheredd oergell fod rhwng 0°c a 5°c ac y dylid dilyn cyfarwyddiadau cadw ar labeli bwyd yn ofalus.

I gael mwy o wybodaeth am listeria a pharatoi bwyd yn ofalus, ewch ar-lein at : *eatwell.gov.uk/listeria.*

Ffliw'r Moch

Mae Siambrau Masnach Prydain wedi rhoi gwybod i ni nad yw rhai busnesau bach a chanolig eu maint o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'r modd y gallai pandemig o ffliw'r moch effeithio arnynt. Hoffem felly eich atgoffa am y cyhoeddiadau hyn y mae'r Llywodraeth wedi eu cynhyrchu ar gyfer busnesau, a gofyn a fyddech yn eu rhoi i fusnesau sy'n dod i gysylltiad â chi.

Dolen we:

http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/187638/flu_businesses_risk_guidance.pdf

SUT I GYSYLLTU Â NI

Yr Adran Dai a Diogelu'r Cyhoedd
Adran Diogelwch Bwyd a Safonau
Masnachu (Safonau Bwyd)
Stryd Fawr
Rhiwabon
Wrecsam LL14 6NH

Ffôn: 01978 292040 (Diogelwch Bwyd)
Ffôn: 01978 292040 (Safonau Bwyd)
Ffacs: 01978 813709

Ymwelwch â ni ar y We yn
www.wrexham.gov.uk

DYDDIADAU AR GYFER EICH DYDDIADUR

Cyrsiau Hyfforddi Hylendid Bwyd 2009—2010

Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (Sylfaenol) (£42.00)

Medi 2009

Dydd Llun 14eg a 21ain 6 – 9pm

Tachwedd 2009

Dydd Llun 9fed & 16eg 6 – 9pm

Dyfarniad Lefel 3 mewn Arolygu Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (£120.00)

Medi 2009 – Tachwedd 2009

Dydd Mercher Medi 16th – Dydd Mercher Tachwedd25th
6 – 8.30pm

Dyfarniad Lefel 4 mewn Rheoli Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (£350.00)

Ionawr 2010 – Ebrill 2010

Dydd Iau Ionawr 14eg – Dydd Iau Mai 6ed 6 – 9pm

Enillwyr Gwobrau Hylendid Bwyd

Llongyfarchiadau i'r safleoedd canlynol sydd wedi ennill Gwobrau Hylendid Bwyd rhwng mis Ionawr 2009 a mis Mai 2009

Y Wobr Aur Portable Foods Manufacturing Co, Bryn Lane, Wrecsam Ind Est; Rendezvous, Coleg Iâl, Ffordd Parc y Llwyni, Wrecsam; Ysgol GW San Silyn, Allt Madeira, Wrecsam; Cartref Preswyl Llys y Waun, Maesywaun, Y Waun, Wrecsam; *:* Meithrinfa Brambles, Yew Tree House, Lôn Rogers, Gwersyllt, Wrecsam; Ysgol Uwchradd Rhosnesni, Lôn Rhosnesni, Wrecsam; *:* McDonald's, 30 - 32, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam; *:* Cartref Plas Bod Llwyd, Ffordd Cae Gwilym, Cefnbychan, Wrecsam, Baxterstorey, Ystafell Fwyta'r Gweithwyr, yn Kelloggs, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam

Y Wobr Arian Meithrinfa Ddydd Plant Cherry Hill, Ffordd Parc Borras, Wrecsam; Ysgol Maes Y Mynydd, Pentredŵr, Rhos, Wrecsam; Cartref Preswyl Manor Park, Stryt Werdd, Holt, Wrecsam; Connected Cafe Cyf, Parc Busnes Redwither, Tŵr Redwither, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam; Plas Trewythen, Lôn y Ficerdy, Gresffordd, Wrecsam; Cartref Preswyl Elm Villa, Lôn Wheatsheaf, Gwersyllt, Wrecsam; Ysgol Penrhyn, Lôn yr Ysgol, Southsea, Wrecsam; Ysgol GW Y Santes Fair, Lôn yr Ysgol, Owrtyn, Wrecsam; *:* Ysgol Deiniol, The Ridgeway, Marchwiail, Wrecsam; Meithrinfa Ddydd Bunnykins, Lôn Pont Y Capel, Gresffordd, Wrecsam; Canolfan Tennis Rhanbarthol Gogledd Cymru, Ffordd Plas Coch, Wrecsam; Ysgol a Gynorthwyir Minera, Ffordd Plas Minera, Minera, Wrecsam; *:* Bwyty Bhs, 1 Stryt Henblas, Wrecsam; Tafarn y Cross Foxes, Erbistog, Wrecsam; Y Brif Gegin, Ysbyty Maelor, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam; Cartref Nyrsio Emral House, 11 Ffordd Caer, Wrecsam; *:* Meithrinfa Ddydd Abbeyfield, Fferm Rhosnesni, Ffordd y Cefn, Wrecsam; *:* Steve McArdle - Cigyddion Teuluol, Cyffin y Santes Fair, Uned 1, Stryt yr Eglwys, Y Waun, Wrecsam; Ysgol Penycae, Ffordd Afoneitha, Penycae, Wrecsam.

Y Wobr Efydd Sandra Snacks, Llys Bedydd, Yr Eglwys Wen, Sir Amwythig; JCB Transmissions Cyf, Uned 3 (Ystafell Fwyta 1 - Safle Newydd), Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam; Stevie's Fast Food, 18 Ffordd Bradle, Wrecsam; Jeanies, Mill House, Llys Bedydd, Yr Eglwys Wen, Sir Amwythig; Cartref Preswyl Plas Rhosnesni, Ffordd y Cefn, Wrecsam; Ysgol GS Bwlchgwyn, Bwlchgwyn, Wrecsam; Greggs, 54 Stryt Gobaith, Wrecsam; Plas Llanerchrugog, Stryt y Plas, Rhos, Wrecsam; Ysgol Hafod Y Wern, Rhodfa Defa, Wrecsam; Jacko's Chippy, 3 Ffordd Norman, Wrecsam; Plas Penygelli, Rhodfa Penygelli, Coedpoeth, Wrecsam; Clwb ar ôl Ysgol, Ysgol Fictoria, Stryt Poyser, Wrecsam; *:* Jones Fish & Chip Shop, 43 Cilgant Sant Siôr, Wrecsam; Meithrinfa Ddydd Playland, 31 Ffordd Stansty, Wrecsam; One to Five, 1 - 5, Allt y Dref, Wrecsam; Canolfan Adnoddau Llai, Sgwâr y Farchnad, Llai, Wrecsam; Cartref Preswyl Nant Silyn, Pont Wen, Wrecsam; Fat Cat Cafe Bar, Uned 2, Gorsaf y Bysiau, Stryt y Brenin, Wrecsam; *:* Ysgol GS Brynteg, Maesteg, Brynteg, Wrecsam; JCB Transmissions, Uned 1 (Ystafell Fwyta 2 Hen Safle), Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam.